# Public Health Wales statement on Novel Coronavirus (COVID- ) outbreak

**This statement will be updated daily at pm**

*Updated: : pm Wednesday August*

Dr Robin Howe, Incident Director for the Novel Coronavirus (COVID- ) outbreak response at Public Health Wales, said:

“Public Health Wales supports the recent announcement of the four UK Chief Medical Officers to extend the self-isolation period from seven to days for those in the community who have symptoms or a positive test result. This will help provide additional protection to others in the community.

“We continue to caution and remind the public and business-owners that we all have a vital role in preventing the spread of Coronavirus by always sticking to social distancing guidelines - staying two metres away from others, and washing hands regularly. When travelling you should also avoid car sharing with people outside your household.

"Anyone with suspected symptoms of COVID- infection - a high temperature, a new, continuous cough, or a loss of smell or taste (anosmia) - must self-isolate and seek an urgent test.

"Confirmed cases must now isolate for days, with members of their household isolating for days until the risk of passing on further infection has gone. Combined, these simple but effective actions will ensure the virus does not spread.

“Public Health Wales is also reminding the public that children under the age of no longer have to maintain a two metre distance from each other or from adults. This reflects scientific evidence which indicates the risk of transmission is lower among this age group. However, it is very important older children and young adults continue to follow social distancing and the other measures to keep them safe.

Updates on current incidents

“ new cases of Coronavirus were identified in the Wrexham community, following four days of testing at easy-access community testing centres in Hightown and Caia Park.

“We’re reassured by the numbers, which appears to indicate that transmission is significantly lower than thought. It’s also important to note that in many of the cases it was possible to identify a likely chain of transmission. As a result, we do not believe there is a large amount of hidden transmission in the community.

“Confirmed cases have been contacted through the Test, Trace, Protect process and provided with additional advice for themselves, their household and other contacts.

“We want to thank the community for their response. Not only those that came forward for testing, but also individuals who have been contact traced and shown a willingness to follow the advice and protect their communities.

“There are no significant updates on the previously reported incidents in Llangefni, Ebbw Vale and Merthyr.

Contact tracing and general information

“Contact tracing continues in Wales as part of the Welsh Government’s Test, Trace, Protect strategy. Anyone who has a positive Coronavirus test will be contacted by a team of contact tracers, and asked for details of everyone they have had close contact with while they have had symptoms.

“Please keep a note of your activities so you can easily remember your whereabouts on a given day, along with who you were in contact with.

“If you are asked to self-isolate, you should also comply with this request to prevent further spread of the virus.

“Tracers are trained staff and personal information that you provide will handled in line with data protection regulations and will not be shared widely.

“Further information about the symptoms of Coronavirus is available on the Public Health Wales website, or members of the public can use the NHS Wales symptom checker.

“Anyone experiencing Coronavirus symptoms can apply for a home testing kit by visiting www.gov.wales/coronavirus, or by calling the national phone service.

“Anyone with suspected coronavirus should not go to a GP surgery, pharmacy or hospital. They should only contact NHS if they feel they cannot cope with their symptoms at home, their condition gets worse, or their symptoms do not get better after seven days.

“Only call if you are experiencing a life-threatening emergency, do not call just because you are on hold to . We appreciate that lines are busy, but you will get through after a wait.”

“Public Health Wales’ user-friendly data dashboard takes information from a range of different sources. The total number of positive cases now includes those reported from non-NHS Wales laboratories, which are subject to ongoing de-duplication, refinement and reconciliation. This may result in fluctuation of the total positive cases as this process takes place.”

***Diweddarwyd: 2:00yp** Dydd Mercher Awst*

Dywedodd Dr Robin Howe, Cyfarwyddwr Digwyddiad ar gyfer yr ymateb i'r achos o'r Coronafeirws Newydd (COVID- ) yn Iechyd Cyhoeddus Cymru:

“Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cefnogi cyhoeddiad diweddar pedwar Prif Swyddog Meddygol y DU i ymestyn y cyfnod hunanynysu o saith i diwrnod i’r rheini yn y gymuned sydd â symptomau neu ganlyniad prawf positif. Bydd hyn yn helpu i ddarparu amddiffyniad ychwanegol i bobl eraill yn y gymuned.

“Rydym yn parhau i rybuddio ac atgoffa’r cyhoedd a pherchenogion busnes fod gennym ni i gyd rôl bwysig i’w chwarae wrth atal lledaeniad Coronafeirws trwy lynu wrth ganllawiau cadw pellter cymdeithasol bob amser – sicrhau eich bod yn cadw dau fetr oddi wrth bobl eraill a golchi eich dwylo yn rheolaidd. Wrth deithio, dylech hefyd osgoi rhannu ceir â phobl y tu allan i'ch cartref.

“Rhaid i unrhyw un yr amheuir bod ganddynt symptomau COVID- , sef tymheredd uchel, peswch newydd a pharhaus neu golli synnwyr blasu neu arogli (anosmia), hunanynysu a chael prawf ar unwaith.

“Rhaid i achosion a gaiff eu cadarnhau bellach ynysu am diwrnod, a rhaid i aelodau o’u cartrefi ynysu am diwrnod hyd nes bod y perygl o drosglwyddo’r haint ymhellach wedi mynd. Gyda’i gilydd, bydd y camau syml ond effeithiol hyn yn sicrhau nad yw’r feirws yn lledaenu.

“Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn atgoffa’r cyhoedd nad oes yn rhaid i blant o dan mlwydd oed gadw pellter dau fetr oddi wrth ei gilydd neu oddi wrth oedolion mwyach. Mae hyn yn adlewyrchu tystiolaeth wyddonol sy'n dangos bod y risg o drosglwyddo yn is ymysg y grŵp oedran hwn. Fodd bynnag, mae'n bwysig iawn bod plant hŷn ac oedolion ifanc yn parhau i gadw pellter cymdeithasol ac at y mesurau eraill i'w cadw'n ddiogel.

Diweddariadau ar ddigwyddiadau cyfredol

“Nodwyd achos newydd o Coronafeirws yng nghymuned Wrecsam, yn dilyn pedwar diwrnod o brofi mewn canolfannau profi cymunedol mynediad hawdd yn Hightown a Pharc Caia.

“Mae’r niferoedd wedi rhoi sicrwydd inni ac maent yn awgrymu, yn ôl pob golwg, fod trosglwyddiad yn sylweddol is nag y tybid yn flaenorol. Mae hefyd yn bwysig nodi ei bod yn bosibl nodi cadwyn drosglwyddo debygol mewn llawer o'r achosion. O ganlyniad, nid ydym yn credu bod llawer iawn o drosglwyddo cudd yn y gymuned.

“Cysylltwyd ag achosion a gadarnhawyd trwy’r broses Profi, Olrhain, Diogelu a rhoddwyd cyngor ychwanegol iddyn nhw, aelodau o’u cartrefi a chysylltiadau eraill.

“Rydym am ddiolch i’r gymuned am eu hymateb. Nid yn unig y rhai a ddaeth i gael prawf, ond hefyd unigolion sydd wedi cael eu holrhain ac sydd wedi dangos parodrwydd i ddilyn y cyngor a gwarchod eu cymunedau.

“Nid oes unrhyw ddiweddariadau sylweddol ar y digwyddiadau yr adroddwyd amdanynt yn flaenorol yn Llangefni, Glyn Ebwy a Merthyr.

Olrhain cysylltiadau a gwybodaeth gyffredinol

“Mae olrhain cysylltiadau yn parhau yng Nghymru fel rhan o strategaeth Profi, Monitro, Olrhain Llywodraeth Cymru. Bydd tîm o olrheinwyr cysylltiadau yn cysylltu ag unrhyw un sydd wedi cael prawf positif am Coronafeirws, a gofynnir am fanylion pawb y mae wedi bod mewn cysylltiad agos â nhw tra bod symptomau gyda nhw.

“Cadwch nodyn o'ch gweithgareddau er mwyn i chi allu cofio’n hawdd ble oeddech chi ar ddiwrnod penodol, ynghyd â gyda phwy yr oeddech mewn cysylltiad â nhw.

“Os gofynnir i chi hunanynysu, dylech hefyd gydymffurfio â'r gofyniad hwn er mwyn atal y feirws rhag lledaenu ymhellach.

“Mae olrheinwyr yn staff hyfforddedig a bydd yr wybodaeth bersonol rydych chi'n ei darparu yn cael ei thrin yn unol â rheoliadau diogelu data ac ni fydd yn cael ei rhannu'n eang.

“Mae gwybodaeth bellach am symptomau Coronafeirws ar gael ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru, neu gall aelodau'r cyhoedd ddefnyddio gwiriwr symptomau GIG Cymru.

“Gall unrhyw un sydd â symptomau Coronafeirws wneud cais am becyn profi gartref trwy fynd i www.gov.wales/coronavirus, neu trwy ffonio’r gwasanaeth ffôn cenedlaethol.

“Ni ddylai unrhyw un yr amheuir bod ganddo/ganddi coronafeirws fynd i bractis meddyg teulu, fferyllfa nac ysbyty. Dim ond os yw'n teimlo na all ymdopi â'i symptomau gartref, fod ei gyflwr yn gwaethygu, neu os nad yw ei symptomau’n gwella ar ôl saith niwrnod y dylai gysylltu â NHS .

“Peidiwch â ffonio oni bai eich bod yn profi argyfwng sy’n peryglu bywyd. Peidiwch â ffonio dim ond oherwydd eich bod yn aros i ateb eich galwad ffôn. Rydym yn deall bod llinellau yn brysur, ond bydd rhywun yn ateb eich galwad ar ôl i chi aros.

“Mae dangosfwrdd data hawdd ei ddefnyddio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn casglu gwybodaeth o ystod o ffynonellau gwahanol. Mae cyfanswm nifer yr achosion positif bellach yn cynnwys y rhai yr adroddwyd amdanynt o labordai nad ydynt yn eiddo i GIG Cymru, sy’n ddarostyngedig i ddad-ddyblygu, mireinio a chysoni parhaus. Gallai hyn arwain at amrywiad yng nghyfanswm nifer yr achosion positif wrth i’r broses hon fynd rhagddi."

GIG CYMRU NHS WALES

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Public Health Wales